# CYNGOR CYMUNED WAUNFAWR

**COFNODION CYFARFOD BLYNYDDOL CYNGOR CYMUNED WAUNFAWR NOS FERCHER, 21.05.2025 am 7 O'R GLOCH yr hwyr, Y Ganolfan Wanfawr.**

| | | |
|---|---|---|
| **Presennol -** Cynghorwyr | Liz Daniel | (Cadeirydd) |
| | Hawys Tuff | (Is-Gadeirydd) |
| | Edgar Owen | |
| | Doug Jones | |
| | Delyth Jones | |
| | Elfyn Griffith | |
| Clerc | Shoned Rees Griffith | |

**1 Croeso'r Cadeirydd -** Croesawodd y Cadeirydd pawb oedd yn bresennol.

**2 Ymddiheuriadau -** Cyng ID, Cyng MT, Cyng SB, Cyng DD

**3 Rhodd y Cadeirydd am 2024-2025**

Dymunai'r Cadeirydd rhoid y rhodd o £25 – i'w gadarnhau

**4 Ethol Cadeirydd am y flwyddyn 2025-2026**

Cynigwyd ail ethol y Cyng LD yn Gadeirydd am y flwyddyn 2025/2026. Cynnigwyd gan y Cyng EO ac eilwyd gan y Cyng Doug Jones.

**5 Ethol Is-gadeirydd am y flwyddyn 2025-2026**

Cynnigwyd ail ethol y Cyng HT yn Is-Gadeirydd am y flwyddyn 2025/26. Cynnigwyd gan y Cyng EO ac eilwyd gan y Cyng Doug Jones.

**6 Penodi aelodau (5) i Bwyllgor y Fynwent ac Eiddo**

Cynigwyd ail ethol y Cyng SB, Cyng Delyth Jones, Cyng ID, Cyng Doug J a'r Cyng EO i wasanaethu ar Bwyllgor y Fynwent ac Eiddo am y flwyddyn.

**7 Penodi aelod (1) i wasanaethu fel Llywodraethwr Ysgol Gynradd y Waunfawr**

Cynnigwyd ail ethol y Cyng Delyth Jones i wasanaethu ar Lywodraethwyr yr Ysgol a'r ran y Cyngor Cymuned. Clerc i hysbysu'r ysgol, gan na fu iddi dderbyn unrhyw wahoddiad i gyfarfodydd yn ystod y flwyddyn diwethaf.

**8 Penodi Aelod (1) i wasanaethu ar Bwyllgor y Ganolfan, Waunfawr**

Penderfynwyd peidio a penodi yn uniongyrchol gan fod y Cyng DD, Cyng DougJ a'r Cyng EO eisoes ar bwyllgor y Ganolfan, Waunfawr.

**9 Penodi Aelod (1) i wasanaethu ar Bwyllgor Unllais**

Cynnigwyd ethol y Cyng SB ac ail ethol y Cyng MJ i wasanaethu ar Bwyllgor Unllais am y flwyddyn. Y ddwy i weithio drwy gilydd er mwyn lleihau y baich.

**10 Cwestiynau gan aelodau'r cyhoedd**

Dim cyhoedd yn bresennol yn y cyfarfod.

**11 Dyddiadau'r cyfarfodydd ar gyfer 2025-2026**

Cyflwynwyd dyddiadau ar gyfer cyfarfodydd Cyngor Cymuned am y 12 mis i ddod, a nodwyd y dyddiadau.

Arwyddwyd……………………………….. Dyddiad……………………. 